Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanfyllin
# Llanfyllin
# Powys
# SY22 5BJ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Llanfyllin yn nhref fechan wledig Llanfyllin yng ngogledd Powys. Mae'n ysgol ddwy ffrwd ieithyddol sy'n gwasanaethu'r dref a'r ardal gyfagos.

Mae 163 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dras ethnig lleiafrifol a disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol ar gofrestr yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i'r dosbarth meithrin ar ddechrau'r tymor maent yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn saith dosbarth cymysg eu hoedran.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 15% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 38% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu mewn dau o'r tri dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dau ddosbarth lle addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a dau ddosbarth lle'r Saesneg yw'r prif gyfrwng. Mae tua 15% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2008. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Medi 2000.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanfyllin yn 2014-2015 yw £3,647. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Powys yw £13,848 a'r lleiafswm yw £3,007. Mae Ysgol Llanfyllin yn y 40fed safle o'r 86 ysgol gynradd ym Mhowys o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol;
- bod rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu gwaith ac yn awyddus i ddysgu;
- bod yr ysgol yn cynllunio profiadau dysgu addas ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol; a
- bod gan yr ysgol nifer o systemau cadarn ar waith sy'n hyrwyddo lles a datblygiad emosiynol disgyblion yn dda.

Fodd bynnag:

- mae diffyg geirfa a hyder yn cyfyngu ar allu mwyafrif o ddisgyblion y ffrwd Saesneg i drafod ac ysgrifennu yn y Gymraeg;
- nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm;
- nid yw agweddau ar y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon effeithiol; ac
- nid yw'r ysgol yn defnyddio system olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth ddarlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol;
- bod gan y llywodraethwyr dealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol o'i gymharu â pherfformiad ysgolion eraill tebyg; a
- bod cysylltiad clir rhwng deilliannau'r hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith o ran mynd i'r afael â'r anghysondeb mewn agweddau ar y ddarpariaeth;
- nid yw llywodraethwyr yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt yn ddigon effeithiol er mwyn herio'r ysgol ynglŷn â pherfformiad yr ysgol; ac
- nid yw'r blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol bob amser yn ddigon penodol na'r meini prawf i fesur llwyddiant yn ddigon meintiol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau rhifedd ac ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2 ar draws y cwricwlwm

A2 Codi safonau Cymraeg ail iaith

A3 Sicrhau bod cynnydd yn y medrau'n cael ei gynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad

A4 Gwella trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion

A5 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

A6 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol ar ddeilliannau monitro ac yn herio'r ysgol am ei pherfformiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u hoed a'u gallu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas yn unol â'u targedau. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dwyn i gof ddysgu blaenorol ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r hyn maent wedi'i ddysgu.

Mae llawer o disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac mae llawer ohonynt yn barod i rannu syniadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio geirfa briodol ar gyfer y dasg. Erbyn diwedd y cyfnod, gall y mwyafrif fynegi barn a thrafod syniadau newydd yn llwyddiannus yn y ddwy iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen, gan ddarllen testunau syml yn ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Mae llawer yn cael mwynhad o ddarllen ac mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gallu trafod eu hoff awduron yn aeddfed gan ddefnyddio geirfa fwy ymestynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn datblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn medru ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion ffurfiau fel cerdyn post ac ysgrifennu cyfarwyddiadau. At ei gilydd, mae ansawdd sillafu ac atalnodi llawer o ddisgyblion yn dda. Mae llawer yn gallu defnyddio eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ail adrodd digwyddiad tân mawr Llundain fel rhan o'u gwaith thema. Er hynny, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd yn gyson eu hysgrifennu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn y ddwy iaith. Mae llawer yn atalnodi ac yn paragraffu eu gwaith yn addas yn ôl eu gallu. Er bod safonau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn dda mewn gwersi iaith, nid ydynt yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae agweddau disgyblion y ffrwd Saesneg tuag at ddysgu Cymraeg yn gadarnhaol. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau, cyfarchion a chwestiynau syml yn y Gymraeg. Er hynny, mae diffyg geirfa a hyder yn cyfyngu ar allu mwyafrif o ddisgyblion i

sgwrsio a thrafod yn y Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion a phatrymau syml yn eu gwaith ysgrifenedig; fodd bynnag, mae’r cynnydd yn gyfyngedig. Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu’n briodol ac mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o’r testun.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio pren mesur yn gywir i fesur hyd at 30 centimedr. Mae llawer yn gallu adio a thynnu yn gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Maent yn defnyddio’r medrau hyn yn briodol i ddatrys problemau mathemategol syml ar draws y meysydd dysgu. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn cymharu pris cynnyrch yn llwyddiannus fel rhan o’u gwaith thema.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer datrys problemau rhif. Mae llawer ohonynt yn defnyddio strategaethau priodol i ddod o hyd i berimedr siâp 2D, a gall ychydig o ddisgyblion mwy abl gyfrifo arwynebedd siapiau afreolaidd yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen graddfa yn effeithiol wrth gyfrifo pellter rhwng dau leoliad ar fap. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso’r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio rhwng yr 25% isaf a’r 25% uchaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg wedi bod yn y 50% is am ddwy o’r tair blynedd dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch dros y tair blynedd ddiwethaf mewn llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg a datblygiad mathemategol yn gyffredinol wedi bod yn y 25% isaf neu’r 50% is. Mae perfformiad yr ysgol mewn iaith llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg wedi bod yn y 50% uwch am ddwy o’r tair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg ymhob maes dysgu.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros y pedair blynedd ddiwethaf yn gyffredinol wedi bod naill ai yn y 50% is neu’r 25% isaf ym mhob pwnc o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na’r lefel ddisgwyliedig, yn y 25% isaf mewn Saesneg a mathemateg ac yn y 50% uwch mewn Cymraeg. Dros amser, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi amrywio heb duedd amlwg. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth ar y lefel uwch wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o’r pedair blynedd ddiwethaf.

Nid oes patrwm amlwg yng nghyflawniadau disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â’u cyfoedion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Mae rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn awyddus i ddysgu. Mae mwyafrif yn cydweithio'n briodol yn y gwersi. Mae mwyafrif yn hyderus wrth fynegi barn ac maent yn cymryd cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid yw gallu ychydig o ddisgyblion i wella eu dysgu eu hunain, nac i weithio'n annibynnol, wedi datblygu'n llawn.

Yn gyffredinol, mae safonau ymddygiad llawer o ddisgyblion yn dda. Maent yn foesgar ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn aflonyddu yn ystod y gwersi. Mae hyn yn cael effaith ar ethos y dosbarth.

Mae rôl y cyngor ysgol wedi ei sefydlu'n gadarn ac mae'r aelodau yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol yng nghymuned yr ysgol ac yn cyfrannu'n briodol at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, roedd gwaith y cyngor yn allweddol ym mhenderfyniad yr ysgol i godi cysgod beiciau ar y safle.

Mae cyfradd bresenoldeb yr ysgol wedi cynyddu ychydig dros y tair blynedd ddiwethaf. Serch hynny, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% is am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae disgyblion yr ysgol yn cefnogi ystod o elusennau lleol ac yn cyfrannu'n effeithiol i weithgareddau cymunedol megis cynllun 'Wetlands', lle plannwyd coed gan ddisgyblion yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn. Mae'r cynlluniau gwaith diweddar yn addas ac yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio medrau yn ddigon bwriadus a chyson ar draws y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod y medrau'n adeiladu'n systematig. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r medrau mewn Cymraeg ail iaith yn y ffrwd Saesneg.

Mae ymweliadau achlysurol â'r gymuned, megis gwlyptir Llanfyllin ac amgueddfa Powysland, yn ychwanegu at brofiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Mae'r ystod eang o glybiau allgyrsiol a gynhelir yn yr ysgol yn cyfoethogi'r profiadau hynny'n llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn addas ac yn galluogi'r disgyblion i ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan yn effeithiol. Trwy waith hanes megis astudio bywyd yng Nghymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn meithrin ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cyfleoedd perthnasol i'r disgyblion gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig yn y gymuned leol trwy ymweld â'r capeli a'r eglwys leol.

Mae'r ysgol yn dechrau cynllunio cyfleoedd addas i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion dinasyddiaeth fyd-eang trwy waith thema'r dosbarthiadau ar Affrica a St Lucia.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol drwy waith y pwyllgor eco. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i chwarae rhan ganolog wrth ailgylchu, a thrwy dyfu planhigion yng ngardd yr ysgol i'w gwerthu.

**Addysgu: Digonol**

Yn y mwyafrif o'r gwersi lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau'n ysgogol, sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn holi'n dreiddgar. Mae'r gwersi hyn wedi eu cynllunio'n dda ac fe roddir sylw da i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau technoleg a gwybodaeth (TGCh) yn ddigon cyson o fewn y gwersi.

Mae cydweithio da rhwng athrawon a chynorthwywyr sy'n llwyddo i ddarparu cefnogaeth briodol i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr yn y dosbarthiadau. Fodd bynnag, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r tasgau bob amser yn herio disgyblion mwy abl yn ddigon llwyddiannus. Mae gor-gyfarwyddo mewn llawer o'r gwersi yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith, ond anghyson yw'r defnydd ohonynt ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhannu nodau addysgol gyda'r disgyblion, ond nid ydynt bob amser yn ddigon penodol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n adeiladol, ond nid ydynt bob amser yn rhoi arweiniad i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae ysgol yn defnyddio amrediad o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu datblygiad disgyblion. Mae'n dechrau defnyddio system electroneg i olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddigon effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion er mwyn trefnu darpariaeth briodol ar eu cyfer.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae awyrgylch ofalgar a chyfeillgar yn yr ysgol, sy'n rhoi pwylais mawr ar les disgyblion. Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng llawer o'r disgyblion ac oedolion ac mae hyn yn ychwanegu at yr ethos cynhwysol. Mae'r ysgol wedi sefydlu system effeithiol lle mae'r disgyblion yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad.

Mae gan yr ysgol nifer o systemau cadarn ar waith i hyrwyddo lles a datblygiad emosiynol disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda nifer o wasanaethau arbenigol megis therapydd iaith, gwasanaethau cymdeithasol, therapi sebra a therapi anifeiliaid anwes

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy wasanaethau a chyfleoedd rheolaidd i fyfyrio, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodoli gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a staff yr ysgol yn darparu cefnogaeth addas ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio strategaethau ymyrraeth benodol i ateb anghenion y disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r system olrhain cynnydd yn llwyddo bob amser i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd y disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol addas yn eu lle ac mae rhieni yn cael cyfle i drafod ac adolygu'r cynlluniau hyn yn gyson.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn hybu ethos cynhwysol sy'n darparu gweithgareddau addas a hygyrch i'r holl ddisgyblion. Mae pwyslais mawr ar feithrin parch tuag at gyfoedion ac ymwelwyr o fewn yr ysgol ac mae'r 'rheolau aur' yn atgyfnerthu'r elfen hon yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol sy'n hybu cydraddoldeb, mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac amrywiaeth cymdeithasol yn addas.

At ei gilydd, mae adeilad yr ysgol yn addas ac yn cael ei gynnal a'i chadw i safon briodol. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol gydag amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau ac yn rhoi sylw haeddiannol i waith y disgyblion. Mae'r adeilad a'r iard chwarae yn fannau diogel, gydag ardaloedd penodol o'r iard wedi eu clustnodi'n briodol ar gyfer disgyblion o wahanol oed. Mae tir eang o amgylch yr ysgol, ac mae defnydd priodol yn cael ei wneud ohono.

Mae digon o adnoddau yn yr ysgol a gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol ohonynt.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Digonol

Mae gan y pennaeth ddarlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae ei arweinyddiaeth ofalgar yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol. Mae'r pennaeth, yr uwch dim rheoli a'r staff yn cydweithio'n agos ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol sydd wedi arwain at godi safonau cyrhaeddiad disgyblion.

Mae strwythur rheoli addas wedi ei sefydlu mewn ymateb i'r newidiadau staffio diweddar ac mae cyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n glir. Mae'r holl staff yn cyflawni eu rolau yn briodol mewn perthynas uniongyrchol â chynlluniau a chyfeiriad strategol yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gosod nifer o strategaethau newydd ar waith er mwyn codi safonau a gwella darpariaeth. Mae'r strategaeth i ymateb i waith y disgyblion eisoes wedi dwyn ffrwyth ac, erbyn hyn, mae ansawdd y marcio yn dechrau cael effaith ar gyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r holl strategaethau sydd ar waith, megis ail strwythuro cynlluniau gwaith, wedi ymsefydlu'n ddigon cadarn nac wedi cael digon o effaith ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r arweinwyr yn talu sylw dilys i flaenoriaethau cenedlaethol. Er engraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n addas ar fireinio'r cynlluniau gwaith mewn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dechrau dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn briodol ac mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn dda. Mae aelodau o'r corff yn ymweld a'r ysgol yn gyson er mwyn arsylwi mewn dosbarthiadau. Serch hynny, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth gadarn sydd ganddynt yn ddigon effeithiol i herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r trefniadau yn cynnwys casglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys dadansoddiad o ddata a chasglu barn disgyblion, rhieni ac asiantaethau allanol. Mae'r uwch dîm rheoli a'r cydlynwyr pwnc wedi cyfrannu'n effeithiol at y broses trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae hyn wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella ansawdd a chodi safonau. Serch hynny, nid oes digon o effaith hyd yma o ran mynd i'r afael â'r anghysondeb mewn agweddau ar y ddarpariaeth.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, ar y cyfan yn cynnig darlun cywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae cysylltiad clir rhwng deilliannau'r hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn nodi nifer o flaenoriaethau gwella priodol, ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen weithredu a dangosyddion llwyddiant. Caiff gweithrediad y cynllun ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth, staff a'r corff llywodraethol. Serch hynny, nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol

nac yn ddigon meintiol mewn mannau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn fanwl yn erbyn y dangosyddion llwyddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae partneriaeth gref yn bodoli gyda'r rhieni. Mae cymdeithas ffrindiau'r ysgol yn weithgar ac yn codi arian yn rheolaidd i brynu adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu yn dda.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion y dalgylch i rannu arfer dda ac i gynnal hyfforddiant ar y cyd. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn narpariaeth y Cyfnod Sylfaen ac yn safonau darllen y disgyblion. Mae trefniadau clwstwr effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith y disgyblion wedi arwain at sicrhau ansawdd a dealltwriaeth yr athrawon o safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae trefniadau da yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd sydd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda staff cwnsela'r ysgol uwchradd i hybu lles disgyblion bregus. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn trosglwyddo'n hyderus i'r ysgol uwchradd.

Mae partneriaeth fuddiol rhwng yr ysgol a'r coleg lleol. Mae myfyrwyr o'r coleg yn gweithio'n effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen i gynnig cymorth defnyddiol i'r athrawon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol, sy'n sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran darparu cymorth effeithiol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio staff yn llawn i rannu arbenigedd ieithyddol rhwng y ddwy ffrwd.

Gwna'r athrawon ddefnydd addas o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sydd yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i staff yr ysgol. Rhennir cyfrifoldeb rheoli perfformiad yr athrawon yn briodol rhwng aelodau'r uwch dîm rheoli

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Mae hyn wedi arwain at godi safonau llythrennedd y disgyblion.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer lles y disgyblion a chodi safonau. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r grant amddifadedd, a chaiff y gwariant ei fonitro'n ofalus gan arweinwyr yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r corff llywodraethol wedi cymryd camau cadarn i sicrhau defnydd effeithlon o'r gyllideb. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried cyflawniadau'r disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662057 - Ysgol Gynradd Llanfyllin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 172 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 24 | 25 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 91.7 | 76.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 7 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.1 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.8 | 0.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 18 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 83.3 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 33.3 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 84.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 4.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 92.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.5 | 28.0 | 76.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662057 - Ysgol Gynradd Llanfyllin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 172 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 28 | 21 | 25 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 85.7 | 76.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 21 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 75.0 | 90.5 | 80.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 17.9 | 38.1 | 24.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | * | 9 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 78.6 | * | 66.7 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 21.4 | * | 33.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 21 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 75.0 | 85.7 | 80.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 28.6 | 33.3 | 32.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 21 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 85.7 | 85.7 | 80.0 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 21.4 | 0.0 | 24.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 99 | 94<br>95% | 5<br>5% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 79<br>81% | 19<br>19% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 99 | 96<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 99 | 96<br>97% | 3<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 99 | 89<br>90% | 10<br>10% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 99 | 86<br>87% | 13<br>13% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 99 | 99<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 99 | 97<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 83<br>85% | 15<br>15% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 99 | 73<br>74% | 26<br>26% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 62<br>63% | 36<br>37% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 99 | 76<br>77% | 23<br>23% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 60 | 31 | 23 | 4 | 0 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 38% | 7% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 60 | 32 | 26 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 53% | 43% | 3% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 59 | 40 | 19 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 59 | 28 | 28 | 0 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 47% | 47% | 0% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 59 | 19 | 28 | 7 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 47% | 12% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 59 | 26 | 26 | 4 | 1 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 44% | 44% | 7% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 51 | 23 | 24 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 45% | 47% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 51 | 12 | 22 | 6 | 3 | 8 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 24% | 43% | 12% | 6% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 60 | 26 | 29 | 2 | 2 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 43% | 48% | 3% | 3% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 60 | 22 | 35 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 37% | 58% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 60 | 28 | 30 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 47% | 50% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 52 | 15 | 26 | 0 | 2 | 9 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 29% | 50% | 0% | 4% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 60 | 18 | 36 | 5 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 30% | 60% | 8% | 2% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 60 | 27 | 27 | 3 | 1 | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 45% | 45% | 5% | 2% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 59 | 21 | 29 | 5 | 0 | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 36% | 49% | 8% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 51 | 19 | 30 | 2 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 37% | 59% | 4% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 47 | 14 | 20 | 4 | 2 | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 30% | 43% | 9% | 4% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 60 | 28 | 29 | 1 | 1 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 47% | 48% | 2% | 2% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 59 | 25 | 28 | 3 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 42% | 47% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Scourfield | Arolygydd Cymheiriaid |
| Huw Ellis | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.